Y Carlwm Gwyn

Duncan Brown

Anifail tua maint cath fach yw'r carlwm (corff 22cm – 32cm + cynffon 22cm – 26cm) yn perthyn i deulu'r Mustelidae sydd hefyd yn cynnwys y wenci, y ffwlbart, y ffured, y dyfrgi a'r mochyn daear. Mae'n hawdd ei adnabod, yn arbennig oherwydd blaen du ei gynffon sydd byth yn newid lliw. Brown golau yw ei liw yn yr haf, ond yn y gaeaf mae'n troi'n wyn – yr unig anifail yng Nghymru sy'n gwneud hyn. Mae'n anifail rheibus sydd, diolch i'w gorff llyfn hirfain, yn hynod o lwyddiannus am hela cwningod yn eu tyllau.

Dyma un cwestiwn diddorol sy'n codi: pam gwisgo cuddliw fel hyn yn y gaeaf? Yn yr Alban a'r Iwerddon mae'r ysgyfarnog fynydd hefyd yn troi'n wyn ac mae'n hawdd esbonio pam – mae llawer o greaduriaid rheibus yn bwyta ysgyfarnogod, ac mae gwenwisg aeaf yn eu hamddiffyn. Ond, ai dyma'r unig reswm wrth ystyried y carlwm? Heliwr ydy hwn yn bennaf ac nid ysglyfaeth, felly a ydy'r cuddliw yn ei helpu i hela'n anweledig yn y gaeaf?

Pa bryd a pha le mae'r carlwm yn troi yn wyn? Ydy'r rhai sydd yn troi'n wyn bob amser yn troi yn hollol wyn neu a oes rhai yn aros hanner ffordd rhwng brown a gwyn?

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Dros y blynyddoedd bûm yn derbyn cofnodion cyfeillion a chydnabod am garlymod yn eu gwisg wen aeafol. Mae'r tabl yn dangos y canlyniadau.

Pam cofnodi carlymod gwyn felly?

Dyma rai o'r cwestiynau y gallwn eu hateb o dderbyn digon o gofnodion:

Ydy'r carlwm yn troi'n wyn yn y gaeaf :

a. yn amlach ac am gyfnod hwy yn y Gogledd?

b. yn amlach ac am gyfnod hwy yn yr ucheldir?

c. yn llwyrach yn yr ucheldir yn y Gogledd?

ch. i raddau llai heddiw nag er ystalwm - arwydd efallai o newid hinsawdd?

Gallwn hefyd geisio ateb y cwestiwn ai cyflwr dros dro ydy'r "hanner brown a gwyn" fel rhan o'r broses o newid rhwng gwyn a brown (ar sail cofnodion "hanner ffordd" ym mis Hydref neu Fawrth), neu ai dyma weithiau y cyflwr cyflawn (ar sail cofnodion "hanner ffordd" ym mis Ionawr.)

Os gwelwch yn dda,
anfonwch eich cofnod gweld carlwm (unrhyw liw) rhwng Hydref a Mawrth ataf i: **Duncan**
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Brown, Llys y Bont, Ffordd y Parc, Parc Menai, BANGOR, LL57 3BH.
E-bost: Dn.Brown@ccw.co.uk
Mae angen: **eich enw a'ch cyfeiriad, pwy welodd y carlwm, ble a chyfeirnod grid, dyddiad, manylion ei liw, ei gyflwr a'r amgylchiadau.**

Bydd eich cofnodion yn cael eu hychwanegu at y tabl a'r graff ar y wefan a'u dangos yno. Bydd croeso i gofnodion dilys o'r gorffennol yn ogystal â rhai'r flwyddyn hon.

COFNODION CARLYMOD GWYNION 1987-2002
(yn nhrefn uchder uwchben y môr)

uchder	mis	blwyddyn	lliw	sylwedydd	man gweld	cyflwr/ amgylchiadau
893m	?	1990	gwyn	Dyfed Jones	copa Cader Idris	yn fyw
500m	2	2002	gwyn	Clifton Hughes	Llyn Anafon SH700700	yn fyw
400m	3	1994	gwyn	Llyr Gruffydd, Porthaethwy	llwybr i ben y Drum	yn fyw
350m	2	1990	gwyn	Wil Jones,Croesor	Y Cnicht	yn fyw
288m	2	2002	gwyn	Meira Shakespear a'r teulu	uwchben Dolwyddelan SH735552	yn fyw
200m		1999	gwyn	Dyfed Jones a Les Colley	rhwng Ll'haearn a Llithfaen	yn fyw
150m	10	2001	brown	Duncan Brown, Waunfwr	Nant Rhaeadr, Abergwyngregyn	yn fyw
150m	3	1992	gwyn ond am dalcen a bôn cynffon brown	Ann Jones, Croesor	ger Llyn Cwellyn	wedi ei ladd ar y lôn
140m	11	1989	brown		Pant Glas	yn fyw
130m	11	2000	gwyn	Aled Jones, Penrhyndeudraeth	Pont Cyrnant, Waunfawr	yn fyw
130m	3	1992	gwyn i gyd ar wahan i'r gynffon "frown"	Falmai (nee) Owen	Garreg Fawr, Waunfawr	yn fyw
110m	2	2002	brown	Alan Crane	B4413 Llanbedrog	wedi ei ladd ar y lôn
100m	1	2002	brown	Alan Pritchard	Abergwyngregyn SH662720	yn fyw
30m	1	1990	gwyn	Doris Alcock, Llanfairfechan	Niwbwrch, Môn	yn fyw
8m	1	1993	gwyn ond am ei gefn	sylw gŵr o Dalsarnau i Wil Jones	Gwrachynys, Harlech SH589342	yn fyw
?	?	1991	gwyn	Llyr Gruffydd Porthaethwy	Dyffryn Ogwen	yn fyw

I raddau bychan iawn yn unig y mae'r tabl uchod yn ateb y cwestiynau pwysig. Mae'n amlwg fod cofnodi carlymod sydd heb newid lliw yn y gaeaf yr un mor bwysig â'r rhai mewn gwenwisg. Fodd bynnag, o astudio'r crynodeb o'r tabl ar ffurf graff yn dangos anifeiliaid y ddau liw ar wahanol lefelau uwchlaw'r môr, mae'n ymddangos fod carlymod gwyn ychydig yn fwy tebygol o gael eu gweld yn y gaeaf ar dir uchel. Ar y llaw arall, mae tuedd gref i rai brown gael eu gweld ar dir isel, ond rhaid derbyn fod rhai brown yn llai tebygol o gael eu cofnodi gan mai dyna'r ffurf arferol.

I ateb y cwestiynau yn iawn mae'n rhaid cofnodi llawer mwy o garlymod yn y gaeaf, y rhai gwyn, a'r brown a'r rhai canolig.



Beth mae eraill yn ei ddweud am y carlwm gwyn?

- Hyd golau dydd sydd yn rheoli pryd y bydd y carlwm yn bwrw ei flew ac yn adnewyddu ei gôt.
- Bydd carlymod y gogledd yn troi'n glaerwyn dros y gaeaf (ag eithrio blaen y gynffon.) Bydd carlymod y de yn aros yn frown ond gyda gwisg aeaf fwy gwelw. Ble yn union mae'r naill sefyllfa yn ymdreiddio i'r llall?
- Cynffonnau carlymod gwyn yw'r smotiau ar faner Llydaw.
- Yn yr (hen) Undeb Sofietaidd nid ydynt yn troi'n wyn yn yr ardaloedd lle bydd eira yn gorwedd am lai na 40 niwrnod y flwyddyn.
- Mae'r benywod yn troi'n wyn yn amlach na'r gwrywod.
- Ymadrodd ar lafar: "cyn wyned â charlwm."
- Yn yr hen gyfreithiau Cymreig (13G) dywedir:

  Tri phryf ydyly y brenhineu gwerth py tu bynhac y llather. llostlydan. a beleu. a charlwnc.

- Ei werth pennaf oedd fel croen amheuthun i addurno clogynnau'r uchelwyr.
- Credir i'r gair carlwm darddu o cardd (=carcharor, sef yr ysglyfaeth) a llwng (= llwnc.)